


papur



priorddy

PAN FEDDWN DALENT PLENTYN I WELD LLAIS A CHLYWED LLUN

**Dyfyniad o Awdl Yr Afon
Gerallt Lloyd Owen**

**Dewiswyd gan Ieuan Wyn
*Gweler y rheswm am ei ddewis y tu mewn***

**Rhifyn 347
PAPUR MEDI 2021**

Gair gan ein Gweinidog

Ffoaduriaid

CYFARCHION i chi i gyd ar gychwyn tymor newydd arall yn ein hanes.



Bu wythnosau'r haf yn rhai digon cythryblus yn ein byd, a digon trist mewn mwy nag un ffordd.

Daeth newyddion arswydus o Affganistan am y Taliban yn cymryd rheolaeth o'r wlad, gan gynnwys y brifddinas Kabul.

Gwelwyd delweddau o flaen ein llygaid o filoedd o bobl o bob oed yn ceisio dianc o'r wlad a chrafangau'r Taliban. Rwy'n siŵr y bydd y golygfeydd yn y maes awyr, yn arbennig yr olygfa o'r plentyn bach yn cael ei estyn dros y wal i ddwylo milwr er ei ddiogelwch ei hun, yn aros yn y cof am hir amser.

Pan fyddwn ni'n mynd ar daith, mae gennym ddigon o amser i'w chynllunio fel arfer, ac yn aml mae'n teithiau'n rhai cyffrous. Ond mae nifer o bobl y byd yn gorfod teithio'n bell iawn oddi cartref ac yn aml yn gorfod gadael ar frys i ddianc rhag rhyfel, trychinebau a newyn. Mae'n anodd dychmygu gorfod dewis rhwng aros gartref, mewn perygl o ryfel, neu fod yn ddewr a wynebu taith anodd yn chwilio am ddiogelwch


Daeth galw ar i Lywodraeth y Deyrnas Unedig weithredu'n gyflym i roi lloches i bobl sy'n ffoi o Affganistan. Amlinellodd y Llywodraeth gynlluniau i ailgartrefu 20,000 o ffoaduriaid.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin eisioes wedi rhoi cartref i dri theulu o Affganistan fel rhan o gynllun sy'n cael ei weithredu ledled y DU. Mae'r teuluoedd, 15 unigolyn, wedi cael lloches ac yn cael eu cefnogi i ailadeiladu eu bywydau'n ddiogel rhag yr arswyd y maent wedi'i brofi yn eu gwlad.

Ymfalchïwn taw Cyngor Sir Gâr oedd un o'r cynghorau cyntaf i roi cartref i ffoaduriaid o Affganistan a dweud y bydd yn gweithio gyda

Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth parhaus os oes angen.

Mae swyddogion yn gweithio gyda Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), sef sefydliad y maent wedi gweithio gydag ef dros y blynyddoedd diwethaf i ddarparu cymorth arbenigol i ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu'n Sir Gaerfyrddin o Syria. Prysurwn i ddweud nad yw cartrefi ffoaduriadaid yn amddifadu'r bobl leol sydd yn aros am gartref parhaol.



Gwyddom ni yn dda fel eglwys am y profiad a'r fraind o groesawu ffoaduriaid atom. Mae Ahmid o Syria a'i deulu

wedi hen gartrefu yn ein tŷ capel ac wedi bwrw eu gwreiddiau yn ddwfn yn ein tref. Cafodd Ahmid ei gyfweld gan *Radio Wales* fel rhan o raglen a oedd yn trafod croesawu ac ymgartrefu ffoaduriaid. Roeddwn mor falch o'i glywed yn dweud ei fod e a'r plant yn hapus ac yn setlo'n dda yn y dref.

MAE sawl stori yn y Beibl am bobl sy'n ffoi am wahanol resymau ac mae gan y Beibl lawer i'w ddweud am sut y dylem drin y rhai sy'n ddiethriaid inni ac sydd angen ein help. Fel Cristnogion mae galwad arnom i fod yn ddwylo Duw yn y byd. Felly, beth allwn ni ei wneud i helpu pobl sy'n bell oddi cartref? Efallai na allwn atal y rhyfeloedd neu'r trychinebau ond fe allwn ni fod yn groesawus a chynnisg lloches. Dyna yw ein braint.



Gweddiwn

Arglwydd, ni fu angen i mi erioed ffoi.
Ni fûm erioed mor ofnus
fel bod rhaid i mi gasglu ychydig eiddo at ei gilydd
a gadael mwy ar ôl,
a chwilio am ffordd i ddianc.
Wn ni ddim am y profiad hwnnw.
Diolch fy mod yn ddiogel.



Amen

DARLLENIADAU

Mis Medi	Darlenniad
Wythnos 1	Marc 7: 24-37
Wythnos 2	Marc 8: 27-38
Wythnos 3	Marc 9: 30-37
Wythnos 4	Marc 9: 38-50

BORE COFFI MACMILLAN MAS TU FAS

Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd

Dydd Gwener 24 Medi 2021

Maes Parcio'r Cwins, Abergwili

9.30 tan 12.00

Mynediad am ddim



Y gobaith yw cynnal y Bore Coffi yn yr awyr agored, Os



bydd y tywydd yn anffafriol bydd lle i sawl un y tu mewn drwy barchu rheolau pellter cymdeithasol a chyfyngu ar niferoedd. Bydd lle i barcio i bawb a gall y rhai sy'n

dymuno hynny dderbyn coffi / te a chacen gennym yn eu ceir.

Ni fydd Stondin Gacennau eleni ond bydd Raffl a Stondin Jam a Siytni fel arfer.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad, cysylltwch ag Alison Parsons (07860 781148), os gwelwch yn dda

OEDFAON MIS AWST

Mae'n diolch yn fawr i Beti-Wyn am drefnu Oedfaon Cydenwadol Capeli Cymraeg Caerfyrddin a'r Cylch yn ystod mis Awst. Roedd y rhain i gyd yn oedfaon rhithiol eleni oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Cafwyd oedfaon fel a ganlyn:

Dydd Sul 1 Awst 2021

Oedfa Gymun a Myfyrdod gan ein Gweinidog. Darllenwyd Salm gan Joan Thomas (Heol Awst) a chafwyd darlleniad gan Elin Wyn James (Y Priordy)

Dydd Sul 8 Awst 2021

Oedfa gyda Myfyrdod gan Elinor Wyn Reynolds. Darllenwyd Salm gan Delyth Williams (Y Tabernacl)

Dydd Sul 15 Awst 2021

Oedfa gyda Myfyrdod gan Tudur Dylan Jones. Darllenwyd Salm gan Brian Walters (Ffynnon-ddrain)

Dydd Sul 22 Awst 2021

Oedfa gyda Myfyrdod gan Mererid Hiopwood. Darllenwyd Salm gan Alun Charles (Y Priordy)

Dydd Sul 29 Awst 2021

Oedfa a Myfyrdod gan ein Gweinidog. Darllenwyd Salm gan Gwawr Waters (Bancyfelin) a chyflwynwyd Gweddi gan Lowri Powell (Cana)

Diolch i bawb a gymerodd ran. Tipyn o gamp fu trefnu pum oedfa fel hyn, yn enwedig yn nhymor y gwyliau. Mae'r ymateb iddynt yn dangos yn glir iawn y bu'r ymdrech yn werth chweil.
Diolch unwaith eto.

**EIN LLONGYFARCHIADAU MAWR I RITA BROWN AR
DDATHLU PEN-BLWYDD ARBENNIG YN 90 OED YN
DDIWEDDAR. DERBYNIODD RODD GAN EIN GWEINIDOG
AR RAN Y PRIORDY**



Apêl dydd Sul cyntaf Medi – Haiti

DDYDD SADWRN 14 Awst, fe darodd daeargryn yn mesur 7.2 yn Les Cayes, 75 milltir i'r gorllewin o brifddinas Port-au-Prince, Haiti. Ddydd Mawrth 16 Awst, daeth Storm Trofannol Grace, llifogydd fflach a thirlithriadau ac achosi dinistr pellach ar yr ynys.

Hyd yma mae'r daeargryn wedi hawlio mwy na 1,400 o fywydau, anafu bron i

7,000 o bobl a dinistrio 83,000 o gartrefi. Mae teuluoedd yn ceisio diogelwch lle bynnag y gallant heb ddim byd ond y dillad ar eu cefnau. Mae cymunedau cyfan wedi'u gwneud yn ddigartref.



Ar hyn o bryd, mae angen lloches brys, bwyd, dŵr yfed a mynediad at ofal iechyd ar bobl sydd wedi colli popeth. Mae partneriaid lleol Cymorth Cristnogol ar lawr gwlad yn barod i ymateb, ond mae angen eich help arnom i gyrraedd mwy o'r bobl fwyaf agored i niwed - menywod a merched, pobl hŷn a phobl ag anableddau sydd fwyaf mewn perygl.



MAE Cymorth Cristnogol wedi lansio apêl arbennig. Ein braint ni fydd cefnogi'r apêl. Byddwn yn derbyn cyfraniadau ariannol yn ystod oedfaon yr Ofalaeth ar ddydd Sul 5 Medi. Diolch.



Ynys Enlli – Lle i enaid gael llonydd

Er pan oeddwn yn blentyn 10 oed fe fûm sawl gwaith yn gobeithio teithio draw i ymweld ag Ynys Enlli, ond oherwydd tywydd garw bob tro nid oedd y cwch yn hwylio ac felly roedd yn rhaid bodloni gyda gweld golygfa o’r ynys o bell uwchben creigiau Aberdaron. 35 mlynedd yn ddiweddarach ar ôl bwcio gwyliau 4 noson ar Ynys Enlli (nôl yn 2019) cawsom siom arall pan fethon ni ymweld â’r ynys yn Haf 2020 oherwydd cyfyngiadau Covid, ond fe ddaeth fy mreuddwyd yn wir o’r diwedd yn ystod Haf 2021!



Saif Ynys Enlli bron i ddwy filltir oddi ar benrhyn Llŷn ym Môr Iwerydd.



Mae’r ynys wedi bod yn ganolfan grefyddol ers y 6ed ganrif. Roedd Brenhinoedd Llŷn a Sant Cadfan wedi sefydlu mynachdy yno ac fe adeiladwyd Abaty Awstinaidd yno yn y drydedd ganrif ar ddeg ar sylfeini’r hen sefydliad Celtaidd. Roedd yr ynys yn gyrchfan bwysig i bererinion yn yr Oesoedd Canol. Credir bod Sant Deiniol a Sant Dyfrig wedi eu claddu yno yn

ogystal â llu o seintiau a phwysigion eraill dros y canrifoedd.

Dinistriwyd yr abaty yng nghyfnod Harri’r 8fed ond mae adfeilion i’w gweld o hyd. Am flynyddoedd lawer wedi hynny bu’r ynys yn rhan o stâd yr Arglwydd Newborough a’i ddisgynyddion. Erbyn 1841 roedd poblogaeth o 90 ar yr ynys gyda phobl yn ymgartrefu yno er mwyn ffermio a physgota ac ym 1881 roedd dros 132 o bobl yn byw yno yn dilyn ymgyrch Arglwydd Newborough y 3ydd i adeiladu cymuned amaethyddol ddelfrydol ar yr ynys. Adeiladwyd capel yno ym 1876. Bu Robert Williams, perchennog llong a ffermwr, yn gweinidogaethu ar yr ynys am dros ddeugain mlynedd cyn hynny. Fel rhan o weledigaeth yr Arglwydd Newborough i greu cymuned ddelfrydol ar Enlli talodd i weinidog wasanaethu yn y capel newydd a gafodd ei adeiladu. Roedd

gan y gweinidog ifanc y Parch. William T Jones amserlen brysur. Roedd ganddo dri gwasanaeth ar y Sul yn ogystal â'r Ysgol Sul ac Ysgol a gynhelid am ddwy awr bob prynhawn. Byddai Seiat ar nosweithiau Mawrth a Iau ynghyd â chwrdd gweddi ar nos Fercher a chwrdd canu ar nos Wener. Byddai ganddo wasanaethau bedydd ac angladdau hefyd ar yr ynys ac yn Aberdaron. Roedd y Parch William T Jones yn rhan bwysig o addysg yr ynys ac fe frwydrodd yn galed am grant gan yr Awdurdod Addysg Lleol ond ofer fu ei ymdrechion. Er mai grŵp bach o blant oedd yn yr ysgol yn ystod y 1930au a'r 1950au cyflogwyd athro llawn amser ar gyfer yr ynys ac yn eu plith Dilys Cadwaladr, y ddynes gyntaf i ennill y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Yn dilyn tri llongddrylliad ym 1819 bu galw am olau i'w osod ar yr ynys. Ar ôl ymgyrch gref adeiladwyd goleudy ym 1821. Roedd effaith y goleudy ar gymuned yr ynys yn sylweddol. Gyda dyfodiad y goleudy cafwyd cwch i'r ynys a ddeuai â chyflenwadau rheolaidd o nwyddau o'r tir mawr a dyfodiad dau geidwad a'u teuluoedd.

Rhwng 1820 a 1920, bu traddodiad o goroni 'Brenin Enlli'. John Williams oedd y brenin cyntaf ar yr ynys ac fe gafodd ei goroni tra oedd yn sefyll ar ben cadair yn y rhan fwyaf cul o dir yr ynys yn dal bocs snisin arian. Boddodd y brenin ym 1841 gan adael mab un niwrnod oed a ddaeth yn frenin ar ei ôl. Ychydig a wyddir am y brenhinoedd eraill ond Love Prichard oedd yr olaf i gael ei benodi neu i'w benodi ei hun - "*Fi ydy'r hynaf, fi fydd y Brenin rwan*". Fe hefyd arweiniodd yr ynyswyr i'r Tir Mawr yn ystod yr Ymadawiad ym 1925. Cefnodd nifer fawr o'r ynyswyr ar yr ynys a hwylio i'r tir mawr oherwydd amodau byw a gweithio anodd. Wrth adael, dywedir fod Love yn hapus i adael yr ynys fel y gallai ddod o hyd i wraig a mynd i'r 'cinema'. Roedd yn 82 mlwydd oed a bu farw'r flwyddyn ganlynol.

Prynwyd yr ynys ym 1979 gan Ymddiriedolaeth Ynys Enlli er mwyn diogelu cynefinoedd yr ynys a'i byd natur, yr adeiladau a'r adfeilion hanesyddol ac i hyrwyddo'i diwylliant a mynediad y cyhoedd arni. Caiff ei hariannu bellach drwy grantiau a rhoddion gan ei bod yn elusen

gofrestredig. Mae'r tir gan mwyaf yn parhau i gael ei ddefnyddio fel fferm ddefaid a gwartheg ac yn Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae triphau dydd i'w cael ac mae pobl yn gallu crwydro'r ynys am ychydig oriau. Mae'r hen ffermdai yn awr wedi eu troi yn fythynnod gwyliau sydd yn dod ag incwm blynyddol i'r Ymddiriedolaeth. Yn un o'r bythynnod yma y cawsom ni fel teulu fyw ynddo am bedwar niwrnod a chael cyfle i ymgolli'n llwyr yn llonyddwch mawr yr ynys.

Wedi taith 20 munud ar y cwch o Borth Meudwy mewn tywydd godidog a thwym a golygfeydd trawiadol Bae Ceredigion fe gyrhaeddodd yr ynys. Colin Evans oedd capten y cwch ac er ei fod yn byw ar y tir mawr bydd ef a'i deulu yn aml yn byw am gyfnodau ym mythynnod goleudy'r ynys. Mae rhieni Colin yn byw ar yr ynys. Pysgotwr cimychiaid yw Ernest Evans, ei dad, ac mae ei fam, Christine, yn fardd ac awdur. Wedi cyrraedd roedd yn rhaid i ni ddadlwytho'n bagiau i'r fan er mwyn eu cludo i'n bwthyn. Roedd rhaid i ni bacio'n syml ond gofalus cyn dod i'r ynys. Er bod digon o ddŵr yfed yno mae'n rhaid dod â phopeth arall sydd ei angen gan nad oes llawer o nwyddau ar gael yno. Roedd rhaid pacio digon o fwyd am y cyfnod, a dim ond dod â beth oedd wir ei angen arnom yn unig gan nad oedd llawer o le ar y cwch. Dim ond un neu ddau o geir a thractorau sydd ar yr ynys, felly roedd rhaid cerdded rhyw 20 munud i gyrraedd ein bwthyn. Hen ffermdy yw 'Nant' ac fe fu'r teulu olaf yn byw yno yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cawsom ein croesawu yno gan Emyr y Warden sy'n byw yn barhaol ar yr ynys gyda'i wraig Mari. Fe eglurodd sawl peth pwysig i ni o ran byw yn y bwthyn gan ei fod yn dipyn gwahanol i'r hyn rydym wedi arfer ag e gartref!

Roedd cerdded dros drothwy'r bwthyn yn union fel camu nôl mewn amser - yn ôl i'r 1930au. Dŵr ffynnon oedd ein cyflenwad dŵr yng nghegin y tŷ a hwnnw'n brin. Roedd yn rhaid defnyddio'r dŵr yn ofalus, ei ferwi ac yna'i hidlo cyn ei yfed neu ei ddefnyddio wrth goginio. Dŵr o'r tanc glaw roeddem yn ei ddefnyddio i olchi llestri neu i lanhau ac ymolchi. Doedd dim 'cawod' o unrhyw fath, dim ond basn o ddŵr a byddai'n rhaid cynhesu'r dŵr yn gyntaf ar y stôf neu'r dewis arall oedd ymdrochi'n ddyddiol yn y môr! Roedd pob gwastraff bwyd yn cael ei gompostio mewn man arbennig yn nhop yr ardd, a phob sbwriel neu bethau ailgylchu'n cael eu rhoi mewn bagiau arbennig er mwyn mynd â nhw adref gyda ni ac oddi ar yr ynys. Does dim trydan ar yr ynys heblaw am un oergell / rhewgell solar yn y gegin ym mhob bwthyn a

ffwrn nwy, felly roedd gennym 6 o lampiau bach solar oedd yn casglu egni yn y ffenest yn ystod y dydd er mwyn i ni gael ychydig bach o olau gyda'r nos. Roedd toiled compost mewn adeilad bach yn yr ardd gefn. Profiad y bydd y plant yn ei gofio am amser hir!!

Roedd gennym ardd gysgodol hyfryd yng nghefn y tŷ yn llawn blodau gwyllt a pherlysiau y gellid eu defnyddio wrth goginio. Roedd ffrynt y tŷ'n wynebu lwerddon gyda golygfa fendigedig o'r tir yn arwain at y môr a'r gorwel pell. Yr unig sŵn oedd sŵn y môr ac ambell fref dafad neu grawc aderyn yn y pellter. Yn wir, dyma un o'r pethau y bydda i wastad yn ei gofio am yr ynys, sef y tawelwch mwyaf bendigedig heb unrhyw aflonyddu o gwbl. Does dim signal ffôn neu wifi ar yr ynys, dim siopau, dim traffig nac unrhyw fwrwm. Roedd cyfle felly i ymlacio'n llwyr a chael 'detox' o unrhyw fath o dechnoleg fodern. Doedd dim ots bellach beth oedd yr amser ar y cloc. Roedd diwrnodau ar Enlli yn teimlo'n dipyn hirach na diwrnodau prysur gartref ac roedd hyn yn rhywbeth i'w groesawu. Heb brysurdeb bywyd arferol roedd mwy o amser ar ein dwylo a chyfle i werthfawrogi pethau syml ond pwysig bywyd sy'n aml yn cael eu colli'r dyddiau hyn, amser i wir siarad ac i drafod gyda'n gilydd, amser i feddwl, amser i chwarae, amser i ddarllen, tynnu lluniau o olygfeydd trawiadol yr ynys gyda fy nghamera, arsylwi ac enwi'r adar arbennig, mynd i nofio yn y môr yng nghwmni morloi'r ynys, neidio i'r môr oddi ar glogwyni, cyfri sawl gwahanol fath o bili pala oedd i'w gweld, mapio tirlun a mynyddoedd Wicklow lwerddon yn y pellter, sylwi ar gychod pysgota, dringo coed ac enwi blodau, crwydro a darganfod pob rhan o'r ynys. Yn eironig iawn, i feddwl ein bod ar ynys anghysbell roedd cymaint o bethau i'w gwneud yno.

Un o fy hoff bethau oedd cerdded o amgylch adfeilion yr Abaty ac ymweld â chapel yr ynys. Gellid ymweld â'r rhain unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos i fyfrio, i weddio neu i eistedd mewn tawelwch. Roedd ein bwthyn drws nesaf i'r adfeilion ac roeddem yn gallu gweld y capel o ffenest y tŷ. Dros fisoedd yr Haf gwahoddir pregethwyr a ficeriaid i fod yn gaplaniaid ar yr ynys. Roedd gwasanaeth yn cael ei gynnal yn y capel ar y Sul a sesiwn o weddio a myfrio bob nos am 9 yn adfeilion yr Abaty. I mi'n bersonol roedd y rhain yn brofiadau ysbrydol ac arbennig iawn ac yn gyfle i brofi heddwch a llonyddwch yng ngwir ystyr y gair.

Fe fuom yn hynod o lwcus gyda'r tywydd yn ystod ein hymweliad. Roeddem yng nghanol tywydd poeth iawn ac felly fe gawsom y cyfle i

wyllo machlud arbennig iawn bob nos. Un bore codon ni am 4 y bore er mwyn dringo Mynydd Enlli (taith o ryw 20 munud o ddrws cefn y tŷ i'r copa) i wyllo'r gwawrio. Profiad bythgofiadwy i mi a'r plant oedd gweld y niwl trwchus yn ymlwybro dros rannau o'r môr a mynyddoedd Eryri yn y pellter gyda sbectrwm o liwiau godidog yn yr awyr glir wrth i'r haul godi.

Fe dreuliais un prynhawn yn crwydro arddangosfeydd yr ynys. Yn adeilad yr Hen Ysgol mae arddangosfa ddiddorol a lluniau o hanes yr ynys. Yn hen ffermdy Cristin mae'r Wylfa Adar a Maes ac yno mae warden yr Wylfa, ei wraig a'r mab yn byw. Yma ceir pob math o wybodaeth am fyd natur yr ynys. Mae'n ardal o harddwch naturiol eithriadol a llawer o waith pwysig yn cael ei wneud i ddiogelu'r ynys. Gwelsom rai o adar mwyaf cyffredin Enlli sef y Pâl (Puffin), Aderyn Drycin Manaw (Manx Shearwater) a'r Frân Goesgoch (Chough) ynghyd ag eraill. Roedd arddangosfa hefyd o ddylanwad yr ynys ar waith celf. Fe fuodd yr artist **Brenda Chamberlain** yn byw ar yr ynys rhwng 1947-62 a bu'r ynys yn ddylanwad mawr ar ei gwaith.



Llund llaw o bobl sy'n byw ar yr ynys yn barhaol. Cawsom y pleser o gwrdd â Gareth a Meriel Roberts sy'n cynnal fferm a chaffi'r ynys. Roedd modd archebu pryd bwyd nos neu frecwast yn y caffi ac roedd siop fechan yno yn gwerthu wyau, llysiau o'r ardd, diodydd, hufen iâ lleol a chwrw enwog Llŷn. Menter newydd yw'r caffi i ddod ag incwm i'r Ymddiriedolaeth. Roedd bwyd cartref bendigedig gyda Meriel a dyletswydd Gareth oedd tyfu'r llysiau yn yr ardd, pysgota crancod a chimwch ffres yn ddyddiol a gweini'r bwyd. Pobl gyfeillgar a hyfryd iawn sydd wedi byw ar yr ynys ers blynnyddoedd.


Roedd y plant yn mwynhau crwydro bob cornel o'r ynys a nofio yn y môr. Creigiau yw arfordir yr ynys heblaw am un traeth bach, Traeth Solfach gyda thywod caregog yn edrych allan ar Garreg yr Honwy ble mae degau o forloi yn ymgynnull ac yn byw. Roedd y plant yn mwynhau chwarae cardiau ac ambell gêm fwrdd gyda'r nos, a gêm o bêl-droed yn yr ardd neu bing-pong ar fwrdd y gegin yn ystod y dydd. Mae Pen Llŷn yn ardal swyddogol 'dark sky', hynny yw does dim llygredd golau'n effeithio'r awyr yn ystod y nos. Roedd y plant wrth eu

bodd felly yn gweld miloedd o sêr na fyddem fel arfer yn eu gweld yng Nghaerfyrddin. Fe fuon ni'n lwcus hefyd i weld y Llwybr Llaethog ac ambell seren wîb odidog.

Profiad a gwyliau bythgofiadwy a gafodd ein teulu bach ni ar Ynys Enlli'r haf hwn. Mae'n lle hynod iawn a does dim ei debyg yn unman arall. Man ysbrydol, tawel sy'n bell o sŵn a sain y byd. Rwy'n edrych ymlaen at gael dychwelyd, gobeithio yn 2023. (Mae gwyliau 2022 ar yr Ynys eisoes yn llawn!). Ac er efallai nad yw gwyliau ar ynys anghysbell at ddant pawb, yn bendant fe fyddem yn argymhell pawb i ymweld â hi:

Ond i mi rhowch Ynys Enlli
Lle mae hedd yn hawlio'r byd.
Yno mae'r olygfa orau
Sydd yn well na'r lleill i gyd.

Detholiad Bach o Luniau'r Teulu ar Ynys Enlli



DYMUNIADAU GORAU

**John Gibby yn derbyn rhodd, sef. trefniant o flodau i'r ardd,
gan ein Gweinidog ar ran y Priordy ar achlysur ei
ben-blwydd arbennig yn 90 oed**



WYTHNOS AILGYLCHU

20-26 Medi 2021

MAE Wythnos Ailgylchu'n ddigwyddiad blynyddol. Caiff ei chynnal eleni am y pedwerydd tro ar bymtheg.



Nod yr wythnos arbennig hon yw annog pawb i ailgylchu mwy a'u helpu i ddeall y manteision a, lle bo angen, newid eu hymddygiad. Wedi dweud hynny, mae pob wythnos yn wythnos ailgylchu!

Mae data gan WRAP, yr elusen sy'n gyfrifol am Gymru yn ailgylchu, yn dagos un effaith gadarnhaol o fyw drwy'r cyfnod clo, sef bod Cymru'n ailgylchu mwy nag erioed ac yn gam yn nes at fod y genedl orau yn y byd am ailgylchu.

Gyda chyfradd ailgylchu Cymru ar ei uchaf erioed (65% yn 2019 / 20, i fyny o 63% yn 2018 / 19*), mae Cymru yn rhif 3 yn y byd am ailgylchu.

Mae'r cynnydd mewn ailgylchu wedi digwydd law yn llaw â'r cynnydd yn yr awydd i helpu'r blaned, gyda'r rhan fwyaf ohonom yn dewis ailgylchu i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Mae ein dull o reoli ein gwastraff a'r adnoddau yr ydym yn eu defnyddio wedi dod yn bwysicach; yn y frwydr gynyddol i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd. Yr argyfwng hinsawdd sydd wrth wraidd thema wythnos ailgylchu eleni. Gyda'r Gynhadledd Newid Hinsawdd (COP 26) i'w chynnal yn Glasgow (31 Hydref – 12 Tachwedd 2021) er mwyn uno'r byd i daclo newid hinsawdd mae Wythnos Ailgylchu yn taro nodyn tebyg. Y slogan yw: *'Ymunwch â'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Ewch ati i ailgylchu mwy yr wythnos hon'.*



MAE Cymru'n anelu at fod yn Rhif 1 am ailgylchu yn y byd. Mae'n arwain y ffordd yn y Deyrnas Unedig. Erbyn 2050, fan bellaf, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio na fydd unrhyw wastraff o gwbl yn mynd i gladdfeydd sbwriel. Mae gan bob un ohonom ran bwysig i'w chwarae i wireddu'r uchelgais hon! Mae ailgylchu'n rhywbeth y gall pawb ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth a helpu'r blaned.

GWYBODAETH BWYSIG A CHAIS GAN Y COLEG

COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG
75 Heol Dŵr, Caerfyrddin SA31 1PZ
colegyrannibynwyr.cymru

Mae paratodau ar y gweill i gyflwyno cyfleoedd dysgu newydd cyffrous yn ystod 2021-22.

I ddechrau'r arlwy, cynhelir sesiwn Gwrando Galwad Duw ar Nos Sul 19 Medi 2021 rhwng 6 ac 8 o'r gloch. Ceir cyfle i ymuno dros Zoom i wrando a thrafod y posibiladau o weinidogaethu ymhlith yr Annibynwyr.

Bydd cyfres newydd o weithdai ar lein yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

1. Arloesi mewn Addoliad – y Gynulleidfa Ar-lein
2. Dysgu Dirnad ac Adnabod Doniau, a'u Datblygu
3. Y Beibl – Darllen, Deall, Dehongli a Dysgu Gair Duw

Yn ogystal, bydd y Coleg yn parhau i ddysgu'r cyrsiau sy'n angenheidiol i'r sawl sydd â'u bryd ar y Weinidogaeth, ynghyd â'r 3 chwrs canlynol:

1. Bedydd a Derbyn Aelodau
2. Gweinyddu'r Cymun
3. Gofal Galar a Chynnal Angladdau.

Cadwch lygad am fanylion y cyfleoedd hyn yn *Y Tyst* ac ar y Gwefannau.

Aled Jones, Cyfarwyddwr a Chydlynnydd
aled@colegyrannibynwyr.cymru ☎07733 370560

CYFLE I FYNEGI BARN – CAIS GAN Y CYFARWYDDWR
Er mwyn sicrhau bod y Coleg yn diwallu holl anghenion

hyfforddiant eglwysi'r Annibynwyr, hoffai'r Cyfarwyddwr i chi gysylltu, os gwelwch yn dda, gydag ymtebion i'r ddau gwestiwn hyn:

1. *Pa hyfforddiant newydd yr hoffech weld y Coleg yn ei gyflwyno?*
2. *A oes gennych aelodau yn eich eglwys fyddai'n medru cynnig hyfforddiant drwy'r Coleg?*

Gellir ymateb drwy lythyr i'r cyfeiriad, neu drwy e-bost i aled@colegannibynwyr.cymru cyn gynted â phosibl, os gwelwch yn dda.

Mae'r adroddiad canlynol ar gael:
Coleg yr Annibynwyr Cymraeg: Adroddiad gyda Rhestr
o'r Cyfraniadau am 2019-20
Cysyllter â'r Ysgrifennydd am gopi



MUNUD I FEDDWL

Bydd ein Gweinidog ar *Munud i Feddwl* (yn ystod rhaglen *Bore Cothi* ar *Radio Cymru* bob bore Mercher ym mis Medi

DYMUNIADAU DA

Anfonwn ein cofion cynnes at y Parchedig Ganon Ddr Patrick Thomas ar achlysur ei ymddeoliad. Wrth ddiolch iddo am ei holl waith dros y Ffydd Gristnogol yn lleol yma yng Nghaerfyrddin, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, dymunwn y gorau iddo yntau a'u deulu ar eu haelwyd newydd yn ein tref ac i'r dyfodol. Pob bendith.



**EDMWND PRYS
(1543/4-1623)**

MAE'N briodol dros ben eleni i gofio gwaith mawr yr Archddiacon **Edmwnd Prys** yn cyhoeddi ei waith pwysig *Salmau Cân* yn 1621. Pedwar can mlynedd yn ôl fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r Llyfr



Gweddi Cyffredin awdurdodedig ar gyfer gwasanaethau yn holl Eglwysi Cymru. Bellach mae ei emynau a'i benillion yn parhau i gael eu canu yn y gwasanaethau eglwysig ac mae dau o'i emynau wedi'u cynnwys yn *Caneuon Ffydd* a chwech yn *Emynau'r Eglwys*.

Hannai teulu Edmwnd Prys ar ochr ei dad, Siôn ap Rhys ap Gryffudd ap Rhys o ardal Llanfairtalhaearn ac ar ochr ei fam, Siân, ferch Owain ap Llywelyn ap Ieuan o deulu

Llwydiaid, Hafodunos, Llangernyw. Ond yn bendant ym mhlwyf Llanrwst y ganed Edmwnd tua'r flwyddyn 1543/4 gan y gwyddys mai yn yr ardal honno roedd ei dad yn byw mewn tŷ a enwid 'Gilfach Ririd' na lwyddwyd i'w leoli bellach. Roedd ganddo berthynas â theulu Salesbury a chyfrifai'r dyniaethydd enwog, William Salesbury, yn gefnder iddo. Nid yw'n rhyfedd felly iddo ddilyn gyrfa ddisglair ym myd llenyddiaeth ac addysg Oes y Dadeni.

Yn ôl pob tebyg derbyniodd ei addysg gynnar ym Mhlasty Gwydir fel y gwnaeth William Morgan, Esgob Llanelwy, cyfieithydd y Beibl cyfan i'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn 1588. Gwyddom fod Edmwnd Prys wedi ei dderbyn i Goleg Ioan Sant, Caergrawnt, yn 1565 ar yr un adeg â William Morgan. Graddiodd Edmwnd yn BA yn 1568 ac yn MA yn 1571 ar ôl ei dderbyn yn gymrawd yn y Coleg yn 1570. Yn ddiamau roedd yn ysgolhaig disglair gan iddo ddod yn hyddysg mewn wyth o ieithoedd yn cynnwys yr Hebraeg. Coleddai'r Grefydd Brotestannaidd newydd a Dysg newydd y Dadeni Ewropeaidd.



Roedd gyrfa ddisglair o'i flaen ar ôl iddo dderbyn Urddau eglwysig. Yn 1573 fe'i penodwyd yn Rheithor Ffestiniog gyda Chapel Maentwrog ac yn 1576 ei ddyrchafu'n Archddiacon Meirionnydd.

Ar ôl ildio'i swydd fel Rheithor Llwydlo treuliodd weddill ei fywyd yn byw yn y Tyddyn Du, ystad fechan ger Maentwrog. Bu mewn rhai achosion cyfreithiol wrth ymestyn ei ystad. Ychwanegodd fywiolaethau Llanenddwyn a Llanddwywe at ei ofalon ar ôl 1580.

Er iddo dderbyn addysg glasurol yn ôl arfer y cyfnod roedd hefyd wedi'i drwytho yn nhraddodiadau barddonol a llenyddol Cymru.

Cyfansoddodd dros chwe deg a phump o gywyddau yn canmol ei gyfoedion megis Thomas Prys, Plas Iolyn, Siôn Phylip, Mochras, a William Cynwal, Ysbyty Ifan. Bu ei ddadleuon hirfaith gyda William Cynwal a gynhwysai dros bum deg a phedair cerdd yn batrwm i'r rhai a gefnogai'r ddysg newydd ddyneiddiol. Cyfansoddodd gant o englynion Cymraeg a rhai yn Lladin hefyd. Ymysg ei gyfansoddiadau cynnar yng Nghaergrawnt roedd cywydd yn sôn am Bêl-droed! Pwnc a godai dipyn o feirniadaeth gan ei fod yn tarfu ar heddwch rhai plwyfi ac yn torri ar draws ymarferion saethyddiaeth a orfodwyd gan y llywodraeth wrth ddisgwyl ymosodiadau gan y Sbaenwyr yn 1588. Yr



a deg honno lluniodd gywydd yn gofyn am faril gwn er mwyn bod yn barod at unrhyw frwydr. Tybed beth fyddai ei ymateb yn 2021 i gystadleuaeth yr Euro, ac i Brexit?

Bu'n briod ddwywaith a ganwyd dau fab iddo ef ac Elen, sef John a Robert, ac i'w



ail wraig Gwen, ganwyd Ffowc, Morgan ac Edmwnd. Yn ôl pob tebyg ei fab Ffowc a'i dilynodd fel deiliad **Tyddyn Du** ar ôl 1623 gan mai 'FF' a 'P' yw'r llythrennau uwchben drws y tŷ hyd heddiw. Bu cysylltiad agos â William Morgan wrth iddo yntau gyfieithu'r Beibl cyfan



erbyn 1588 a thalwyd teyrnged iddo gan Morgan. Yn briodol,

mae cerflun o Edmwnd Prys yn rhan o'r gofeb gerbron Eglwys Gadeiriol Llanelwy i gofio'r rhai a fu wrth y gwaith o baratoi'r Beibl Cymraeg, sef William Morgan, Thomas Huet, William Salesbury ac Edmwnd Prys. Ond ymroi i waith pellach a wnaeth Edmwnd Prys yn y blynyddoedd a ddilynodd 1588, sef paratoi ei *Salmau Cân*. Gan ei fod yn hyddysg yn y Gerdd



Dafod gaeth gallai fod wedi dilyn y drefn honno ond troes at farddoniaeth rydd gan lunio fersiynau dealladwy a chanadwy o'r holl salmau. Llwyddodd i greu'r llyfr emynau cyntaf llwyddiannus yn y Gymraeg gan ddilyn i raddau ymdrech gynharach gan awduron megis Gwilym Middleton, Edward Kyffin a James Rhys Evans, Ewias. Llwyddodd fel y bu o leiaf bedair ar bymtheg argraffiad o'r *Salmau Cân* yn y canrifoedd dilynol, gan osod patrwm newydd o ganu cynulleidfaoel yn yr eglwysi. Bellach mae ei gamp yn cael ei chydhabod yn **Eglwys Maentwrog**

gan y ffenestr liw'n dwyn y teitl ***Psalmist of Wales***, a gan gofeb yng Ngholeg Sant Ioan yng Nghaergrawnt iddo ef a'r Esgob William Morgan. Mae ei gamp yn haeddu cael ei gofio pedwar can mlynedd ar ôl i'w *Salmau Cân* weld golau dydd gyntaf.



Mae'n diolch yn fawr i Cyril Jones am yr erthygl ddiddorol hon. Treuliodd Cyril gyfnod yn uwch ddarlithydd mewn hanes yng Ngholeg y Drindod cyn dod yn bennaeth ar Ysgol Ardudwy, Harlech. Bu'n byw ym Mhumsaint pan oedd yn gweithio yng Nghaerfyrddin ac yna wedi ymddeol ond mae ei gartref bellach yn Rhuthun, Sir Ddinbych.

**Ymweliad Pobl Ifainc y Priordy â'r Overhang yng
Nghaerfyrddin pan gafwyd cyfle arbennig i ddisgyblion
Blwyddyn 6 bontio â PIP**



Ifanc@Priordy

Helo bawb

Croeso nôl i bawb wedi gwyliau'r haf. Gobeithio cawsoch gyfle i ymlacio a mwynhau!



Newyddion da!

Mae'r Ysgol Sul yn ailagor ar y Sul, 12 Medi! Hwre! Ond cofiwch am y cwrdd plant ar 5 Medi!

Diolchgarwch

Bydd ein gwasanaeth
Diolchgarwch fore Sul cyntaf
Hydref ac fe fyddwn yn cyflwyno
rhoddion i'r Banc Bwyd: Pasta, Bisgedi, Tuniau, Te, Coffi, Grawnfwyd....



Cofiwch ein dilyn ar Facebook a Twitter a'n gwefan www.priordy.org

Fedrwch chi gracio'r cod?

A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	W	X	Y	Z
F	V	C	A	Q	N	O	E	I	R	M	B	X	H	Z	J	W	Y	P	L	T	K	S	D	U	G

CJGHWG I XRKGJ FHQRXX RJ RWZGT WYT

Abraham

Rhowch gylch o gwmpas y geiriau yn y grid.




www.WordSearchMaker.com

aberth
Abimelech
Abram
Aifft
bendith
Canaan
cenedl

ffydd
Gomorrah
gweddïo
Hagar
Haran
Isaac
Ismael

Lot
mab
newyn
prawf
Sara
Sodom

PIP yn dal i Ddringo!



PIP YN ANTURIO

Ar ddiwedd tymor go ryfedd arall, dyma Beti-Wyn yn trefnu antur i'r PiPiaid (Pobl Ifanc y Priordy). Antur go iawn!

Chredwch chi ddim - mae gan Gaerfyrddin ganolfan ddringo tu fewn newydd yn hen Eglwys Dewi Sant. Mae'n enfawr! Mae gofod yr hen Eglwys wedi cael ei drawsnewid i le gyda digonedd o



ardaloedd dringo, rhai bach a rhai gydag uchderau mawr.

Y sialens yw cyrraedd y brig ond er mwyn gwneud, rhaid meddwl yn ddoeth am bob symudiad. Mae'n lle i ymarfer eich sgiliau gweithio mewn tîm oherwydd mae pawb yn cefnogi ei gilydd er mwyn galluogi aelod o'r tîm i gyrraedd y



brig.


Mae'r wal ddringo fwyaf yn 11 metr o uchder, ac yn dipyn o her credwch chi fi! Profiad heriol ar y corff ac ar yr ymennydd, ac erbyn y diwedd roeddwn wedi blino'n lan!

DIOLCH YN FAWR Beti-Wyn am drefnu antur mor wych.



SIARAD CYFROLAU!

Yn Yr Egin, Pencadlys S4C, ar Ddydd Iau 29 Gorffennaf 2021 lansiwyd cyfrol ddwyieithog o waith Rhian Evans, sef Siarad Cyfrolau / Speaking Volumes sy'n olrhain hanes dechreuadau Papur Llafar Caerfyrddin a'r Cylch a Llyfrau Llafar Cymru.



Fel y dywed Rhodri Glyn Thomas yn ei Ragair i'r gyfrol yr un person sy'n ysbrydoliaeth i'r gwasanaeth ac yn ganolog i'w ddatblygiad yw Rhian. Mae'n rhyfeddol meddwl hefyd fel mae'r gwasanaeth hwn a ddechreuodd yn Sir Gâr bellach yn



wasanaeth cenedlaethol sy'n hyfyw ac yn parhau i ddatblygu – diolch i Rhian, aelodau staff a lluo o wirfoddolwyr.

A daeth cylch o wirfoddolwyr a chyfeillion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth ynghyd i'r Cyfarfod Lansio. Llywyddwyd y cyfarfod gan Sulwyn Thomas, yntau'n un o weithwyr diwyd y fenter o'r dyddiau cynnar. Darllenwyd darnau o'r gyfrol gan Christine John ac Eirlys Jones, dau o'r gwirfoddolwyr hirsefydlog ffyddlon. Cafwyd anerchiad hefyd gan y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diwylliant,

Chwaraeon a Thwristiaeth, Cyngor Sir Gâr, a chyfaill arbennig i'r fenter.

Bu cylfe i ni gymdeithasu ychydig dros baned yn ystod y prynhawn, gan gadw at ganllawiau Covid-19, a'n braint ni oll oedd cael prynu copi o'r gyfrol wedi'i llofnodi gan Rhian.

Diolch am brynhawn hwyliog a llawn gobaith ac am gyfrol i'w thrysori. Gwelwyd eitemau am y digwyddiad yn ddiweddarach

ar y cyfryngau torfol yn cynnwys, Newyddion S4C, Post Prynhawn Radio Cymru a BBC Wales Today, ynghyd ag ychydig o hanes y fenter ar Wales – BBC News ar y we. Yn ogystal â Rhian, cafwyd cyfweiliadau gydag eraill o'r Priordy, sef Sulwyn Thomas a Rita Brown ac un o'r cyflwynwyr oedd Mared Ifan. Clywyd Rhian mewn cyfweiliad hefyd gyda John Roberts ar Bwrw Golwg a Siân Cothi ar Bore Cothi ar Radio Cymru.

Rhian Evans, Siarad Cyfrolau / Speaking Volumes, Argraffwyd gan Wasg Carreg Gwalch. Cyhoeddwyd gan Lyfrau Llafar Cymru, Tŷ Llafar, Parc Dewi Sant Ffordd Ffynnon Job, Caerfyrddin SA 31 3HB. ☎ 01267 238225. Pris: £5. (Drwy'r Post: £7). Hefyd. mae'r gyfrol ar gael drwy Rhian yn y Priordy.



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

ELIS A MEINIR JONES
Cnwc y Gwili

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

CINIO DYDD SUL YR OFALAETH

Dydd Sul 17 Hydref 2021

Gwesty'r Llwyn Iorwg

12.30 ar gyfer 1 o'r gloch

Pris: £18 am dri chwr

Enwau ar y daflen yng nghyntedd y capel cyn gynted â phosibl, os gwelwch yn dda



Te Pnawn Dydd Sul 11 Gorffennaf 2021



**Diolch i Alison
a Ffion am
wneud
y te ac i bawb
arall a fu'n
helpu**





M



Pa mor dda ydych chi'n 'nabod eich emynau? Mae'n Fis Medi ac mae pob gair sy'n eisiau yn yr her isod yn dechrau gydag M. Rhowch gynnig arni!
Pob lwc!!

1	Gwaith hyfryd iawn a melys yw ----- d'enw di, O Dduw.	M
2	Bugail f'enaid yw'r Goruchaf, Ni bydd ----- eisiau arnaf.	M
3	Beth yw mesur glas y nen? Beth yw ----- y sêr uwchben?	M
4	---- anialwch 'rwyf yn trigo, temtasiynau ar bob llaw.	M
5	Ŵyneb siriol fy Anwylyd yw fy ----- yn y byd.	M
6	O ddinas fechan Bethlehem, --- dawl gwelir di.	M
7	Disgyn Iesu o'th gynteddoedd Lle mae ----- mawr o hedd	M
8	Iôr y nef, ymwêl â'r ddaear, edrych ar y ---, y byd.	M
9	Pam y caiff bwystfilod rheibus Dorri'r egin --- i lawr?	M
10	O aros gyda --, y mae'n hwyrhau; Tywyllwch, Arglwydd, sydd o'm deutu'n cau.	M

Atebion ar Dudalen 38

**Rhan o'r deyrnedd I ddiolch am fywyd
Gwenda Mair Edwards
a draddodwyd gan Y Parchedig Hywel Wyn Richards
ar ddydd ei hangladd**

Merch Harri ac Olwen Williams a anwyd, fel y byddai'n falch o ddweud, yn Nhywyn, Meirionnydd pan oedd ei thad yn weinidog yno, yn hŷn o dair blynedd na'i hannwyl Siân. Tua 6 oed oedd hi pan symudodd y teulu i Waunfawr a thua 13 oed pan symudwyd wedyn i Fangor. Roedd Gwenda yn mawrhau'r cysylltiadau daearyddol yna i gyd, ond yn fwy fyth y cysylltiadau teuluol. Y gwreiddiau yn Sir Fôn a'r teuluoedd yn Lerpwl, Seven Sisters a Llundain y byddent yn ymweld â hwy a threulio cyfnodau yn ystod gwyliau haf - a'r berthynas â'r cefnderwyr a'r cyfnitherod yn un glòs a chynnes. Yn eu tro byddai'r teuluoedd yn ymweld â hwy ac aelwydydd Brynteg a Phenygeulan yn fwrwm o hwyl wrth grwydro traethau Pen Llŷn a Sir Fôn, ac roedd yr hoffter o'r llecynnau hynny wedi aros gyda Gwenda ar hyd y blynyddoedd.



Roedd wedi rhoi ei bryd ar nyrsio yn gynnar iawn, a chychwynnodd ei hyfforddiant yn y 'Royal' yn Lerpwl, cyn mynd ymlaen wedyn i hyfforddi fel bydwraig yn ysbyty Sili. Erbyn hyn roedd y teulu yn Aberystwyth a'i thad yn un o Athrawon y Coleg Diwinyddol, a dychwelodd Gwenda i Aberystwyth ac i'r hen ysbyty yn North Road - cyn i Bron-glais agor ym 1966.

Roedd dylanwad yr aelwyd yn drwm iawn arni, wrth gwrs, mewn mwy nag un ystyr, ac ar un cyfnod roedd ei bryd ar fynd i'r maes cenhadol. Efallai bod hynny yn rheswm pam yr aeth i Gynhadledd Genhadol y Pasg yn y Barri. Cynhadledd bwysig a dylanwadol iawn yn ei dydd, yn cael cefnogaeth gan lawer o bobl ifanc yn eu harddegau hwyr a'u hugeiniau cynnar. Un o fynychwyr cyson y gynhadledd oedd W J Edwards, ac yno y cychwynnodd perthynas Gwenda a Bill.

Mae Wyn [brawd W J Edwards] yn cofio gyrru Morris Minor 1000 gwyrdd oedd ganddi - a hithau wedi dysgu gyrru cyn Bill. Wel ffawd heglu fyddai Bill i bobman, a phob amser yn cael lwc! Ond yr hyn mae rhai ohonon ni'n ei gofio yw'r Volkswagen Beetle. Ac fe grwydrodd y ddau gryn dipyn yn hwnnw yn do, a chadw mewn cyswllt â rhai roedd Bill wedi cyfarfod â hwy wrth deithio i'r Almaen gyda T J a Gwenith Davies.

Priodi yn Siloh, Aberystwyth ar 1 Grffennaf 1967, a gwledd yng ngwesty'r Marine. Byddai Bill yn hoffi dweud fod Siloh a'r Marine wedi mynd ond bod y briodas yn dal!

Cartrefu yng Ngarthgwyn, Llanuwchllyn, a dechrau nyrsio yn adran famolaeth Ysbyty Dolgellau tan geni Nest, a rhoi'r gorau i'w gwaith proffesiynol am ddeunaw mlynedd i fagu'r merched, cyn dychwelyd am gyfnod cyn symud i Gaerfyrddin. Rwy'n pwysleisio 'gwaith proffesiynol' oherwydd fuodd Gwenda erioed heb waith ar hyd y blynyddoedd - a fuodd hi erioed yn segur chwaith.

Wrth feddwl amdani geiriau o'r Rhufeiniaid sy'n dod i'r meddwl yn syth. Ar ddiwedd y llythyr mae Paul yn cyflwyno gwraig o'r enw Phebe i'r eglwys: Ac meddai:

Derbyniwch hi yn enw'r Arglwydd, mewn modd teilwng o'r saint, a byddwch yn gefn iddi ym mhob peth y gall fod arni angen eich cymorth, oherwydd y mae hithau wedi bod yn gefn i bawb, ac i mi yn bersonol.

Dyna chi deyrnged i unrhyw un - bod yn gefn i arall. a dyna Gwenda i mi, yn gefn i deulu a thylwyth, ffrindiau a chydnabod, cymuned ac eglwys. I bopeth da a dyrchafol.

Prin fod angen i mi nodi gymaint o gefn i'w theulu. **Yn gefn i Bill** i sicrhau rhwydd hynt iddo gyflawni ei weinidogaeth a dilyn ei ystod eang o ddiddordebau. Roedd Gwenda yno - fel roedd Bill yn disgwyl iddi fod! Sawl gwaith y clywais i, heb sôn amdanoch chi, y floedd 'Gwenda'. A hithau'n dod yn y fan ac yn fuan yn ôl y galw. A Bill, oedd bron, bron â bod mor ffrwydrol a diamynedd ei natur ag ydw i, yn dra ffodus o anian hynaws, tawel a diymhongar Gwenda. Roedd yna ryw dawelwch, ryw dangnefedd yn perthyn iddi, on'd oedd? Roeddech chi'n ei synhwyro a'i deimlo yn syth o fod yn ei chwmni.

O! - fe allai hithau ddweud ei dweud pan oedd galw am hynny. Roedd hi'n wraig o argyhoeddiadau, egwyddorion a gwerthoedd clir iawn. Ond byddai Gwenda yn gallu cyfleu'r cyfan gyda rhyw gadernid tawel.

Yn gefn i chi'r merched ar hyd y blynyddoedd. Nid dim ond blynyddoedd eich magwraeth yng Ngarthgwyn - ond wedi i chi adael y nyth a dilyn eich gyrfa'u. Ond nid yn gefn yn unig, ond yn ffrind da, ac yn un a rannodd ei diwylliant cyfoethog gyda chi; ei hoffter o gerddoriaeth a chanu, y theatr ac actio a 'ballet'. Siân yn sôn am fynd i'r 'ballet' ar ymweliadau â Llundain a'r ddwy wedi gwirioni ar Margaret Fonteyn. Y profiadau teuluol wedi cyfoethogi ei bywyd a'i magu yn wraig lengar, ddiwylliedig a deallus, a hithau yn ei thro yn trosglwyddo'r gwaddol yna i chi'ch tair. Mae'r tair ohonoch wedi wynebu cyfnodau digon anodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma. Drwy'r cyfan bu eich mam yn gefn ac yn gryfder. Ac mae Erin, er efallai nad yw'n llawn ddeall hynny hyd yma, wedi profi o'r un cariad a chyfeillgarwch. Roedd Nain yn ffrind da, diogel.

Meddai Tudur Dylan amdani:

Parha, fel y Gwenda gynt - yn darian
i dair rhag bob helynt.
Arhosol ymhob croeswynt
yn graig i'w gŵr rhag y gwynt.

Yn gefn i'r eglwys a'r gymuned yn Llanuwchllyn; roedd disgwyl i wraig y gweinidog fod yn llywydd cymdeithas y chwirydd, a chymryd cyfrifoldeb am drefnu gweithgareddau fel 'te angladd' ac nid ar chwarae bach oedd gwneud hynny mewn ardal fel Llanuwchllyn! Aelod brwd a ffyddlon o Gôr Merched Uwchllyn a Chymdeithas Gorawl Llanuwchllyn, llywydd cyntaf cangen Merched y Wawr; cynorthwy-ydd yn yr Ysgol Feithrin, y Gymdeithas Ddiwylliadol a Chwmni Drama Emyr a Liz Puw. A dyna lle gafodd bleser a mwynhad, a chyfle, i ddefnyddio'r idiom Saesneg, 'i ollwng i gwallt i lawr!' A rhywsut roedd yn un annhebygol i fod ar lwyfan yn 'chware rhan', ond fe gafodd bleser a hwyl ryfeddol o wneud - a llwyddiant - yn 'Steddfod Machynlleth. Ac yn y gweithgareddau yna i gyd yn gwbl ddbynadwy.

Arthur D. Jones yn crynhoi yn ei englyn iddi wrth iddynt droi am Gaerfyrddin:

Diolch i'r wraig fu'n diwel - ei gorwych
wasanaeth i'w chapel;
rwy'n siŵr y parha'r un sêl
yn hanfodion Ei fedel.

A gwir y gair. Bwrw iddi yr un mor barod a brwd yn y Priordy; Cymdeithas y Chwirydd; Merched y Wawr; Telynau Tywi; Papur Llafar y Deillion; Siop y Pentan. Ac wedi dychwelyd i Bow St, fu yna ddim llacio ar yr ymroddiad yna i'r 'pethe'.

I ddyfynnu Paul eto o Philipiaid:

Bellach, gyfeillion, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyfiawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn a bydd Duw'r tangnefedd gyda chwi.

Dyna'r pethau oedd yn cyfrif i Gwenda, a dyna'r pethau yr ymroes iddyn nhw ar hyd ei hoes, a heddiw, yn a thrwy ein galar a'n chwithdod a'n hiraeth, lle i ddiolch sydd gyda ni am un a wnaeth, yng ngeiriau'r Iesu, 'yr hyn a allodd'.

Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Hywel Wyn Richards am y deyrnged hon ac am ganiatâd y teulu i'w chyhoeddi.





CWRDD GWEDDI



Nos Fercher – 8 Medi 2021 am 7

Croeso cynnes i bawb. Does dim rheidrwydd ar unrhyw un i gymryd rhan. Eich cwmni sy'n bwysig. Cyfle gwych i ymdawelu a myfyrio gyda'n gilydd.

Cofiwch ymuno.

Cewch y ddolen zoom yn nes at yr amser

LLONGYFARCHIADAU!

Ein llongyfarchiadau mawr i Siân Elin sydd wedi derbyn galwad i Gapel Ebenezer Dyfed (Eglwysrwrw) a Chapel y Graig, Castellnewydd Emlyn. Fe gofiwch i Sian dreulio cyfnod gyda ni yn ein Gofalaeth yn ystod yr amser y bu'n paratoi ar gyfer y Weinidogaeth. Ein dymuniadau gorau iddi.



Bydd Cyrddau Sefydlu ac ordeinio Siân yn digwydd ar Ddydd Sadwrn 2 Hydref 2021 am 1.30 yn Nghapel y Graig gyda'r Parchedig Ddr Denzil Morgan yn pregethu ac am 5.30 yn Ebenezer gyda'r Parchedig Beti-Wyn James yn pregethu.

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 15 Medi 2021 am 7

Naill ai yn y Festri Neu ar Zoom

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhwch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

**YR ATHRO EMERITWS DESMOND HAYES AR DDYDD EI
BEN-BLWYDD ARBENNIG YN 90 OED YN DERBYN RHODD
GAN EIN GWEINIDOG AR RAN Y PRIORDY**




Rheswm leuan Wyn dros ddewis dyfyniad o waith Gerallt Lloyd Owen...

Daw fy newis o eiriau ar gyfer Papur Priordy y mis hwn o'r llun ar wal fy nghartref pan oeddwn yn blentyn yn yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd.

Pan oeddwn yn ifanc, symudodd ein teulu dŷ sawl gwaith a bues i'n byw yn ardaloedd yr Eglwys Newydd, Nantgaredig, Sain Ffagan a nôl eto i'r Eglwys Newydd. Roedd yr holl



symud ar brydiau'n gallu teimlo'n heriol wrth drïo setlo i mewn i rywle newydd ond roedd cael pethau cyfarwydd o'n cwmphas, neu bethau ysbrydoledig fel y geiriau yma ar y waliau, yn creu'r tai'n gartrefi braf i ni ac yn caniatáu i ni deimlo'n gartrefol unwaith eto.



Geiriau **Gerallt Lloyd Owen** ydyn nhw. Enillodd gadair Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor ym 1975 am ei awdl "Yr Afon" ac o'r awdl hon y daw'r geiriau rydw i wedi eu dewis:

"Pan feddwn dalent plentyn... i weld llais a chlywed llun."



Wrth edrych ar y merched gartref - Greta sy'n dair a Miriam sy'n flwydd, yn chwarae gyda'i gilydd y dyddiau yma, mae'r geiriau hyn yn aml yn dod i'r cof. Mae'r geiriau'n syml iawn ond yn llawn gobaith a

hiraeth ar yr un pryd. Mae gallu'r ddwy i chwarae am oriau gyda'r un peth yn hyfryd. Mae dychymyg Greta'n carlamu ar brydiau ac mae'n anhygoel gwrando arni'n "chwarae rôl". Duw a wŷr beth sy'n mynd 'mlaen yn ei phen bach hi!!

Dw i wrth fy modd hefyd yn edrych ar Greta'n ymateb i brofiadau am y tro cyntaf. Mae'n hyfryd gweld ei brwdfrydedd heintus at y pethau syml mewn bywyd, er enghraifft treulio'r prynhawn yn gwneud mwclis o flodau llygad y dydd. Mae'r adegau hyn yn atgoffa rhywun pa mor bwysig ydy hi weithiau i arafu a chymryd amser i werthfawrogi'r pethau bach a phrofi'r cyffro o bersbectif plentyn.

Dwi'n credu bod y deunaw mis diwethaf wedi cynnig perspectif newydd ar fywyd i ni i gyd ac yn bersonol, dw i yn sicr wedi dysgu sawl peth gwerthfawr iawn dros y cyfnod. Mae technoleg wedi dod yn rhan flaenllaw o fywydau nifer ohonom dros gyfnod y pandemig ac wedi bod yn fodd i nifer gadw mewn cyswllt â'i gilydd wrth i ni fod ar wahân.

Dw i yn un sy'n dwlu ar dechnoleg (dydy hynny ddim yn syndod sbo - byddai peiriannydd darlledu heb ddiddordeb mewn technoleg braidd yn rhyfedd!). Dw i hefyd yn euog o dreulio munudau lawer (neu o bosib oriau weithiau!) yn syllu ar sgrîn fach y ffôn ac yn mynd o un "app" i'r llall. Mae technoleg yn rhywbeth ffantastig ond mae hefyd angen bod yn ofalus yn ein defnydd ohoni, dw i'n credu. Ar brydiau, mae'n gorddibyniaeth ar dechnoleg yn gallu arwain at ddiffyg dychymyg - rydyn ni'n troi at y ffôn am atebion i bopeth yn hytrach na meddwl am yr ateb ein hun. Mae hynny'n dod â ni'n ôl at eiriau Gerallt Lloyd Owen a'r dyhead yma i allu gwerthfawrogi'r pethau bach unwaith eto.


YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS

Apêl Mis Mehefin

Diolch i bawb a gefnogodd yr apêl arbennig hon. Ymateb gwych! Cyflwynwyd llond sach o becynnau tabledi gwag i fferyllfa Nigel Williams yng Nghaerfyrddin. Bydd y pecynnau gwag yn cael eu hailgylchu gan TerraCycleUK a'r Fferyllfa'n cael pwyntiau i'w trosglwyddo'n gyfraniadau ariannol i elusennau o'i dewis.



GAIR O DDIOLCH GAN YR ATHRO EMERITWS DESMOND HAYES


Dymuna Des ddiolch o galon i'n Gweinidog ac aelodau Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin am y cyfarchion, y galwadau ffôn, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Mae'n ymfalchio'n fawr ei fod yn perthyn i ofalaeth a chymdeithas mor glôs a chyfeillgar. Mae'r cyfan yn golygu llawer iddo.

ATEBION HER YR EMYNAU *Mae'r rhifau yn cyfeirio at Ganeuon Ffydd*

1. Moliannu (18); 2. Mwyach' (112); 3. Maint (115); 4. Mewn (262);
5. Mywyd (339); 6. Mor (456); 7. Moroedd (575); 8. Maes (648);
9. Môn (728); 10. Mi (759)

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com?



Y STORI ORAU Lleucu Roberts

Y Lolfa - Awst 2021: £8.99

Nofel afaelgar am berthynas mam a merch, wrth iddynt deithio mewn hen VW i leoliadau arwyddocaol yn hanes y genedl, gan adrodd straeon ar hyd y daith. Gwelwn y tebygrwydd, y gwrthdaro a'r agosatrwydd rhyngddynt. Cyfrol arobryn Medal Ryddiaith Eisteddfod AmGen 2021, wedi ei darlunio gan Efa Lois.

DIOLCHGARWCH YR OFALAETH – 2021

Y PRIORDY	
Bore Sul, 3 Hydref am 10	Oedfa Blant a Phobl Ifanc am 10 gyda Beti-Wyn
Nos Sul 3 Hydref am 5	Cwrdd Diolchgarwch a Chymun gyda'r Parchedig Ddr Adrian Morgan Gorseinon a'n Gweinidog Paned i ddilyn <i>Rhoddion y Plant at Fanc Bwyd Caerfyrddin</i>
CANA	
Dydd Sul, 10 Hydref am 3	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a Chymun gyda'r Gweinidog
Nos Fercher 17 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Parchedig Catrin Ann Paned i ddilyn
BANCYFELIN	
Dydd Sul, 10 Hydref am 1.30	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a Chymun gyda'r Gweinidog
Nos Iau, 21 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Parchedig Emyr Williams Paned i ddilyn

Mae croseo i bawb ym mhob un o'r gwasanaethau hyn

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Ieuan Wyn, Cyril Jones (Rhuthun) a
Meleri Llwyd O'Leary am y lluniau'r mis hwn



Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org



DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Medi		Hydref	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Elinor Wyn Reynolds	Adrian Evans	Sulwyn Thomas	Philip Jones



DARLLENWYR



Medi	5	Cwrdd Plant	Hydref	3	Adrian Evans (Hwyr)
	12	Meleri LI O'Leary		10	Elis Jones
	19	Heledd Tomos		17	Lleucu Edwards
	26	Aelodau		24	Sulwyn Thomas



CYHOEDDWYR



Medi	Adrian Evans	Hydref	Wyn Tegryn Evans
------	--------------	--------	------------------

RHWYDWAITH



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbenig am Alwyn Jones, Gwenan Fflur Jones, Harri Evans, Nigel Jenkins a Mari Jenkins. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Bu amryw yn y Priordy'n cymryd rhan ar y cyfryngau torfol dros yr haf. Go brin ein bod wedi cipio pawb ond dyma geisio! Bu Catrin Haf Williams a Rebecca Hayes yn trafod cynnwys y papurau a'r gwefannau a Tim Hayes dudalennau'r chwaraeon yn y papurau newydd



ar **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru**. Hefyd, bu Fflur Dafydd, yr awdur a'r gantores a'r sgriptiwr drama yn westai pen-blwydd ar un o'r rhaglenni.

Efallai bod nifer ohonoch wedi gweld Michael Ball yn canu gyda Chôr Llanddarog ar un o raglenni **Wonderful Wales** ar **Sianel 5** yn ddiweddar. Ymhlith aelodau'r côr roedd Angharad Wyn ac Elin Wyn James.

Bu Menna Elfyn yn trafod y gyfrol a olygodd yn ddiweddar, sef *Cyfrinachau* nofel anghyhoeddedig gan Eluned Phillips ynghyd â'r gerdd a ddaeth yn ail i'w cherdd arobryn hi ei hun ar gyfer cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol 1967 ar **Raglen Dei Tomos ar Radio Cymru**. Hefyd, bu Tudur Dylan Jones a John Gwilym Jones yn trafod *Am yn Ail*, sef casgliad newydd o gerddi o'u heiddo mewn rhaglen arall gyda Dei Tomos.

Ar **Newyddion 9** ar **S4C** a **BBC Cymru Fyw** bu Beti-Wyn yn sôn fel y mae cenhadu wedi gweddnewid yn ystod y pandemig, gydag oedfaon digidol wedi camu i'r bwlch. Mae bron i 80 o oedfaon Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin yn ardal Caerfyrddin wedi eu cyhoeddi ar y we ers dechrau'r pandemig, a rhai o'r gwasanaethau hynny wedi eu gwylio fil o weithiau. Mae'n Gweinidog yn gweld pwysigrwydd i'r ddau gyfrwng i'r dyfodol, sef y cyfrwng digidol a'r cyfrwng wyneb-yn-wyneb ac yn falch fod cynifer ohonom wedi dychwelyd i'r capel ar ôl i ni ailagor.

Ar **BBC Cymru Fyw** yn ddiweddar roedd pennawd yn datgan ei bod yn hanfodol i Gymru fynd i'r afael â diffyg meddygon teulu. Yn ôl Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA), y corff sy'n cynrychioli meddygon a myfyrwyr meddygaeth yn y DU, mae angen i Gymru gael strategaeth i fynd i'r afael â diffyg meddygon teulu. Mae gan y Gymdeithas dystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod cynnydd mawr yn nifer y meddygon teulu sy'n gweithio'n rhan amser yn hytrach na llawn amser oherwydd pwysau cynyddol yn y gweithle. Dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru: fod cynnydd sylweddol wedi bod yn y ffigyrau recriwtio meddygon teulu ers nifer o flynyddoedd Serch hynny, dywedodd y Dr Llinos Roberts, meddyg teulu rhan amser sydd hefyd yn gweithio yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Abertawe, ei bod yn



"anodd" iddi gredu nad oes yna argyfwng yn y byd meddygaeth teulu yng Nghymru. Bu'm siarad yn ogystal ar **Newyddion S4C** ynglch cyfnod llacio rheoliadau Covid-19.

Mae'r Dr Llinos ac Osian a Trystan Hayes yn ymddangos mewn hysbys am lyfrau plant ar **S4C** a chlywir llais Rebeca Hayes.

Mae'n siŵr i amryw diwnio i mewn i'r Eisteddfod Amgen 2021 ar y cyfryngau. Bu nifer o'r Priordy'n cymryd rhan, yn cynnwys Tudur Dylan (Meurn), Elinor Wyn Reynolds (un o feirniaid Cystadleuaeth y Goron), Carys Edwards (llywyddu Seremoni'r Fedal Ryddiaith) a Menna Elfyn (yn sôn am y gyfrol *Cyfrinachau*). Cafodd Elin Llwyd ei chyfweld ar **Radio Cymru** ynghylch eisteddfod / au sy'n aros yn ei chof. Hefyd, cafodd Iestyn O'Leary ei brofiad cyntaf o fod yn rhan o dîm golygu *Sioe Cabarela* ar gyfer yr Eisteddfod ac mae'n ddiolchgar I Ganolfan S4C yr Egin am y profiad a'r cyfle.



Ein llongyfarchiadau i Feirdd Myrddin ar gyrraedd rownd derfynol y Talwrn yn erbyn Dros yr Aber yn ystod yr Eisteddfod Amgen, gan ddod o fewn trwch blewyn i ennill yr ornest. Roedd Aled Evans yn aelod o Dîm Beirdd Myrddin.

Efallai bod rhai ohonoch yn dilyn rhaglenni John Hardy yn y gyfres **Cofio** ar **Radio Cymru** ac wedi clywed Sulwyn Thomas yn dwyn i gof ei brofiadau carafanio, gan gynnwys y tro pan aeth y sosban tships ar dân! Wnawn ni ddim holi pwy oedd ar fai!! A ninnau'n clywed cymaint y dyddiau hyn am ffoaduriaid a'r helynt maent yn eu hwynebu drwy'r byd bu Ahmed, Tŷ Capel, yn sôn ar **Radio Wales** am brofiad ei deulu yn symud i Gymru ac yn ymgartrefu yng Nghaerfyrddin ar **Radio Wales**.

By Dewi Snelson ar **BBC Cymru Fyw** yn sôn am ohirio Hanner Marathon Caerdydd oherwydd Covid-19 tan fis Mawrth 2022 gan annog rhedwyr i barhau i redeg a mwynhau!

Da oedd gweld Capel y Priordy ymysg y capeli a gyflwynodd fidio ar gyfer *Prosiect Digidol Cwpan Denman 2021* ar y testun Eglwysi Gofalgar yn sgil y Pandemig. Nid cystadleuaeth oedd hon eleni. Diolch am gael gweld y fidio yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol rhithiol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni

I GLOI, ein llongyfarchiadau mawr i'n pobl ifanc ar eu llwyddiant yn yr arholiadau, sef **TGAU**: Elis Roderick, Carwyn Axford, Steffan O'Leary a Mabli Reynolds; **Uwch Atodol**: Gareth Jones, Carina Sidhu, Gwenan Jones, Betsan Elias, Elain Owen a Gwenllian Howells. **Safon Uwch**: Catrin Owen (sy'n mynd i astudio cerdd ym Mhrifysgol Manceinion) a Lucy Jones (sy'n mynd i astudio hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth). Ein dymuniadau gorau i bob un ohonynt ar gyfer y dyfodol. Dalied ati!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Hydref i'n
Gweinidog neu Alun Charles**

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Non a Carwyn ac Erin ar golli mam, mam yng nghyfraith a nain, sef Gwenda Edwards, Bow Street, priod y diweddar Barchedig W J Edwards, ein cyn-weinidog, ar 5 Gorffennaf 2021. Meddylw'n hefyd am Lowri ac Allan a Nest a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth.

Tristwch i ni oll oedd deall am golli dau aelod yn ystod mis Awst, sef Margaret Jones (Cartref Dôl-y-felin Sanclêr a chynt o Heol San Pedr) a Sâ'n Axford, Cae Seiri. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'u teuluoedd yn eu colled a bydd teyrnged i'r ddwy yn ymddangos yn ein rhifyn nesaf.

A gofid pellach oedd clywed am golli Beca Mai Richards, merch Eleri James, Llangain, a hynny mor ddisymwth ym mlodau'i dyddiau.

Mae'n cydymdeimlad yn fawr ag Eleri a'r teulu
oll yn eu galar.

Clywsom hefyd am golli Jean James, Rhydargaeau. Roedd hi'n weddw i frawd y diweddar Barchedig Denzil James ac yn fodryb i Betsan James. Cofiw'n am Betsan a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.



PANED A SGWRS
dros
Zoom



**Bore Mercher 22 Medi 2021 am 11 o'r
gloch**

***Byddwch yn derbyn y ddolen ar gyfer y cyfarfod
mewn da bryd***



Y SULIADUR



Medi	5	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog	C
	12	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	
	19	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog. Capel Emaus, Bangor, yn ymuno â ni ar lein	
	26	Bore	Oedfa gyda'n Haelodau	

Hydref	3	Bore Hwyr	Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant gyda'n Gweinidog Cwrdd Pregethu a Swper Diolchgarwch gyda'r Parchedig Ddr Adrian Morgan (Gorseinon) a'n Gweinidog	C
	10	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	
	17	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth – Manylion y Tu Mewn	
	24	Bore	Oedfa gyda'r Parchedig Evan Morgan	
	31	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

CALENDUR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant								
Medi				Hydref				
5	12	19	26	3	10	17	24	31
CP	✓	✓	✓	CP				

DALIER SYLW



Hyderwn y bydd yr amgylchiadau lleol yn caniatáu i ni barhau i gynnal oedfaon ar y Sul ac Ysgol Sul yn Nhyrnor yr Hydref. Byddwn, wrth gwrs, yn cadw golwg ar y sefyllfa'n ddyddiol a rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd. Pwysleiswn hefyd y byddwn yn deall yn iawn os na fydd rhai ohonom yn teimlo'n ddigon hyderus i fentro i'r oedfaon ar hyn o bryd.

